**Rhif: WG30436**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

**Ymateb i'r Ymgynghoriad ar ddiweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2016**

30 Tachwedd 2016

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol XXXXXXXXXXXXXX

**Ymateb i'r Ymgynghoriad ar ddiweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2016**

## Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y diweddariad drafft o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan Llywodraeth Cymru www.wales.gov.uk rhwng 4 Mawrth a 26 Mai 2016. Darparwyd y ddogfen ymgynghori mewn Saesneg, Cymraeg a fformat Hawdd ei Ddeall. Derbyniwyd 76 ymateb ysgrifenedig, o'r rhain roedd 30 oddi wrth unigolion ag ASD neu eu rhieni a gofalwyr. Derbyniwyd 46 ymateb oddi wrth amrywiaeth eang o sefydliadau statudol a gwirfoddol ac oddi wrth grwpiau proffesiynol. Hefyd cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru ag amrywiaeth o grwpiau rhieni a rhanddeiliaid ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad a thrafod eu barn ar y ddogfen.

Darparodd llawer o'r ymatebion ysgrifenedig oddi wrth unigolion, rhieni a gofalwyr wybodaeth werthfawr i ni am eu profiad o gael mynediad at wasanaethau. Oherwydd y bydd yr adborth hwn yn ein helpu i nodi lle y gallai fod materion penodol y gellir mynd i'r afael â hwy, gwnaethom geisio eu cytundeb i basio'u hymatebion i Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ASD i'w trafod â darparwyr gwasanaeth lleol.

Mae rhestr o unigolion a sefydliadau sydd wedi cytuno i gyhoeddi eu henwau yn atodiad un. Mae rhestr o ddigwyddiadau a chyfarfodydd ymgynghori y mae swyddogion wedi'u mynychu yn atodiad dau.

## Crynodeb o Adborth a Dderbyniwyd

Yn gyffredinol roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn cefnogi dull o weithredu strategol Llywodraeth Cymru a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Roedd cytundeb eang â datblygiad y Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol Integredig, a gwelliannau'n cael eu ceisio i wasanaethau diagnostig trwy Raglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ond roedd cwestiynau ynghylch gweithrediad. Roedd ymatebion unigolion, rhieni a gofalwyr yn tueddu i godi pryderon am y ddarpariaeth leol. Ar gyfer gwasanaethau plant roedd adborth am anawsterau a brofwyd wrth gael atgyfeiriad ar gyfer asesiad a'r diffyg cymorth sydd ar gael mewn ysgolion, gan gynnwys mynediad at staff arbenigol. Hefyd roedd galwadau am fwy o wybodaeth a chanllawiau ar gyfer rhieni cyn ac ar ôl diagnosis gan gynnwys cyngor am ymyrraeth. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu'r angen am fwy o gymorth i bobl ifanc yn ystod pontio ar ôl 16 oed a gwell gwasanaethau ar gyfer oedolion ag awtistiaeth. Yn benodol, roedd llawer o ymatebion yn gofyn am fwy o gymorth i unigolion i'w helpu i gyflawni a chynnal cyflogaeth.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion oddi wrth sefydliadau'n dwyn sylw at yr angen i ddarparu hyfforddiant awtistiaeth ar draws amrywiaeth o alwedigaethau gan gynnwys iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a meddygon teulu yn ogystal â chyflogwyr a staff canolfannau hamdden. Dylai hyfforddiant gael ei deilwra i fodloni anghenion penodol pobl ag awtistiaeth ac argymhellwyd y dylid cynnwys hyfforddiant awtistiaeth mewn hyfforddiant proffesiynol cychwynnol, er enghraifft ar gyfer athrawon a nyrsys ac mewn datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd ymateb y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn codi'n benodol yr angen i wella ymwybyddiaeth a chymorth mewn carchardai.

## Darganfyddiadau Allweddol

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu y manylwyd arnynt yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn amrywiol ond daeth nifer o themâu i'r amlwg mewn perthynas â phob maes â blaenoriaeth.

## Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant

Adroddodd rhieni a gofalwyr ar anawsterau wrth ddod o hyd i wybodaeth am lwybrau diagnostig awtistiaeth, ymyrraeth a sut mae gwasanaethau awtistiaeth yn gweithredu yn eu hardaloedd. Roedd yn amlwg nad oedd llawer yn ymwybodol o'r amrywiaeth eang o wybodaeth a chyngor sydd ar gael ar wefan ASDinfocymru sy'n elfen allweddol o gyflawni'r CGS ASD. Roedd rhai hefyd yn nodi y dylai cyngor a gwybodaeth fod ar gael i'r rheiny heb fynediad at y rhyngrwyd.

Roedd llawer o gefnogaeth ar gyfer gwella ymwybyddiaeth o awtistiaeth a darparu hyfforddiant parhaus ar gyfer amrywiaeth eang o grwpiau proffesiynol. Byddai angen teilwra hyn i rolau a chyfrifoldebau unigol a oedd â dull safonol o ymdrin â sicrhau darpariaeth hyfforddiant o ansawdd da. Hefyd dywedodd llawer y dylid cynnwys pobl ag awtistiaeth wrth ddatblygu hyfforddiant a'i ddarparu.

## Asesu, Diagnosis a Chymorth

Yn y blynyddoedd diwethaf mae llawer o randdeiliaid wedi codi pryderon ynglŷn ag amseroedd aros hir ar gyfer atgyfeiriad i wasanaethau asesu a gwneud diagnosis ar gyfer plant, a phrinder gwasanaethau diagnostig ar gyfer oedolion. Er bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith bellach i wella gwasanaethau, ceir pryderon parhaus ynglŷn â chael mynediad at atgyfeiriad i wasanaethau diagnostig a'r angen am lwybr diagnostig safonol.

Fel rhan o'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn gwasanaethau diagnostig anhwylder niwroddatblygiadol a bellach gwelir y gwelliannau mewn darpariaeth gwasanaeth. Bydd y CGS ASD wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu llwybr diagnostig cenedlaethol y cytunwyd arno a bod camau'n cael eu cymryd i leihau amseroedd aros diagnostig.

Mae gwelliannau hefyd yn cael eu gwneud i wasanaethau diagnostig i oedolion. Gan adeiladu ar y gwelliannau mae'r Rhwydwaith Cwnsela Cyn/Ôl Diagnosis i Oedolion wedi'u cyflawni, ystyriodd grŵp gorchwyl a gorffen sut y gellir datblygu gwasanaeth diagnostig cynaliadwy i oedolion. Daeth gwaith y Grŵp i ben ym mis Mawrth 2016 ac mae wedi darparu cyngor i Weinidogion, sy'n cefnogi datblygiad y Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol Integredig. Bydd ei argymhellion yn darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y CGS ASD wedi'i ddiweddaru. Bydd adroddiadau'r grwpiau'n cael eu cyhoeddi.

O bwys arbennig roedd pryderon y mynegodd rhieni mewn rhai ardaloedd ynglŷn ag anawsterau wrth gael atgyfeiriad i wasanaethau asesu trwy ysgolion neu drwy wasanaeth iechyd sylfaenol. Mae llawer o rieni'n bryderus nad ydynt yn gallu cael atgyfeiriad ar gyfer eu plentyn ar gyfer asesiad diagnostig, a heb ddiagnosis ffurfiol nid ydynt yn gallu sicrhau'r cymorth ychwanegol mae eu plentyn ei angen yn yr ysgol.

## Mynd i'r Afael ag Anghenion Cymorth

Roedd cefnogaeth eang ar gyfer datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol Integredig, sy'n cynnwys cydweithredu ar draws asiantaethau. Roedd un ymateb yn unig o blaid dyrannu'r adnoddau i ardaloedd lleol ar gyfer gwasanaethau ar raddfa lai. Nid oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ddarparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol Integredig, felly roedd llawer o ymatebion yn gofyn am fwy o wybodaeth am y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwasanaeth newydd, beth fydd yn ei ddarparu, sut mae'n gysylltiedig â gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli a sut fydd gwir integreiddio'n cael ei gyflawni.

Roedd amrywiaeth o argymhellion sut i wella gwasanaethau cymorth ar draws yr ystod oedran. Cododd llawer o rieni bryderon ynglŷn â phontio ar ôl 16 oed mewn addysg a phontio rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac oedolion. Ystyriwyd bod angen mwy o gymorth ar gyfer oedolion, gan gynnwys gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd meddwl, hyfforddiant pryder a sgiliau cymdeithasol, llwybrau gofal cymdeithasol ar gyfer awtistiaeth, cymorth â thai, therapïau a gwydnwch teuluol.

Adroddwyd ar anawsterau oherwydd nad oedd darparwyr gwasanaeth yn hyblyg wrth ystyried anghenion penodol unigolion ag awtistiaeth. Er enghraifft, pan newidiodd awdurdod lleol ddarparwr cludiant ysgol, nid oedd plentyn ag awtistiaeth yn fodlon teithio â gyrrwr anghyfarwydd, ond nid oedd unrhyw hyblygrwydd i ymgysylltu â'r gyrrwr blaenorol a oedd ar gael. Arweiniodd hyn at y teulu'n gorfod gwneud trefniadau amgen a effeithiodd ar allu'r rhiant i weithio a chreodd gost ychwanegol bersonol sylweddol.

**Addysg a Chyflogaeth**

Roedd llawer o'r ymatebion oddi wrth unigolion a theuluoedd yn codi pryderon ynglŷn ag anawsterau wrth sicrhau cymorth mewn ysgolion. Fel nodwyd uchod, adroddodd lawer o rieni fod plant yn cael gwrthod atgyfeiriad i wasanaethau diagnostig, gan nodi mewn un ardal dim ond ysgolion oedd yn cael gwneud atgyfeiriad i wasanaethau diagnostig. Hefyd roedd pryderon ynglŷn â'r diffyg cymorth arbenigol fel argaeledd seicolegwyr addysgol a gofynnodd rhai a oes digon o wybodaeth arbenigol am awtistiaeth. Ymateb nodweddiadol oedd y byddai plant yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol ond byddai eu hymddygiad yn dirywio gartref. Roedd rhieni'n teimlo y dylai fod hyblygrwydd i ystyried ymddygiad gartref i ddarparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â ph'un a dylid atgyfeirio plentyn i wasanaethau asesu.
Hefyd cododd nifer o rieni faterion ynglŷn â phresenoldeb, oherwydd bod rhai'n dod o dan bwysau sylweddol i sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth o'r anawsterau mae'r unigolyn ifanc ag awtistiaeth yn eu profi ac o ganlyniad mae rhai rhieni wedi dadgofrestru eu plant o'r ysgol i ddarparu addysg yn y cartref. Nid oedd y cymorth a ddarparwyd gartref yn diwallu anghenion addysgol y plentyn.

Codwyd pryderon sylweddol ynglŷn â darpariaeth cyfleoedd addysg a chyflogaeth ôl 16, ac mae angen gwneud mwy mewn colegau a phrifysgolion i gefnogi pobl ifanc ag awtistiaeth. Roedd llawer o ymatebion yn codi'r diffyg cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ag awtistiaeth, ar gyfer pob gallu. Roedd angen mwy o ymgysylltu ag asiantaethau fel Canolfan Byd Gwaith a darparu cymorth wedi'i deilwra i ddod o hyd i waith cyflogedig a'i gynnal. Mae angen cael mwy o waith â chyflogwyr i godi ymwybyddiaeth a darparu cyfleoedd cyflogaeth.

**Cyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r bwriad i gyhoeddi cynllun cyflawni ac roedd y rhan fwyaf yn dwyn sylw at yr angen i fonitro gweithrediad yn agos, roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod y Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol Integredig yn cael ei werthuso. Hefyd roedd cefnogaeth eang i gynnwys pobl ag awtistiaeth yn y Grŵp Ymgynghori Gweithredu ASD a gynllunnir. Roedd llawer yn bryderus i sicrhau bod mesurau deilliant effeithiol yn cael cytundeb ac adroddir arnynt yn rheolaidd.

**Sylwadau Eraill**

Wrth ymweld â grwpiau rhieni a rhanddeiliaid, roedd yn amlwg nad oedd llawer o'r rheiny a oedd yn mynychu wedi cael amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori, yn enwedig oherwydd ei bod 46 tudalen o hyd ac yn eithaf cymhleth. Felly roedd yn bwysig sicrhau bod y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru yn hygyrch i bawb.

Gellir ehangu ymateb y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, yn ychwanegu'r gwaith ar y cyd diweddar â Chyngor Sir Fynwy a charchardai lleol. Mae hyn wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith staff i gael gwell dealltwriaeth o anghenion unigolion yn y system cyfiawnder troseddol sydd ag awtistiaeth o bosibl.

Roedd dau ymateb ysgrifenedig yn ceisio deddfwriaeth awtistiaeth, un gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ac un gan unigolyn. Roedd y Gymdeithas yn disgrifio diben deddfwriaeth byddai gwella atebolrwydd ymhlith gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau darpariaeth gwasanaethau awtistiaeth. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos awdurdodau lleol sy'n derbyn dyraniad cyllid ar gyfer awtistiaeth, nad yw bellach wedi'i neilltuo oherwydd rhoddwyd y Grant Seilwaith ASD yn y Grant Cynnal Refeniw yn 2015. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth hefyd yn galw am fwy o gydweithredu, yn enwedig mewn perthynas â'i ymgyrch *Too Much Information* i wella dealltwriaeth a goddefgarwch tuag at bobl ag awtistiaeth yn y gymuned.

**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Hefyd cafodd yr ymatebion a dderbyniwyd eu dadansoddi i nodi bylchau mewn gwasanaethau a chymorth a allai gael effaith anghymesur ar unigolion o grwpiau gwarchodedig mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd nifer o ymatebion yn dwyn sylw at anghenion penodol merched ag awtistiaeth, plant sy'n derbyn gofal a'r angen i archwilio ymwybyddiaeth a darpariaeth ar gyfer unigolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Derbyniwyd dau ymateb yn Gymraeg ac roedd rhai ymatebion yn codi'r angen i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth ar gael yn Gymraeg.

**Gweithredoedd**

Ymateb i'r adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad a byddwn yn diweddaru'r cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru erbyn:

- Sicrhau bod y CGS ASD wedi'i ddiweddaru a'r Cynllun Cyflawni a gynllunnir yn hawdd eu cyrchu a'u deall.

- Datblygu strategaeth gyfathrebu i wella ymwybyddiaeth o awtistiaeth a rhoi cyhoeddusrwydd i'r adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDinfocymru.

- Ei wneud yn haws i gael gwybodaeth am wasanaethau lleol, gan gynnwys y Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol Integredig trwy wefan ASDinfocymru.

- Mynd rhagddo â chynlluniau i weithio â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i gydweithredu i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth mewn carchardai a'r system cyfiawnder troseddol.

- Dilyn dull strategol o ymdrin â datblygu a darparu hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth eang o grwpiau proffesiynol, gan gynnwys y rheiny sydd angen gwybodaeth arbenigol.

- Defnyddio'r adborth rydym wedi derbyn i ddarparu gwybodaeth ar gyfer codi ymwybyddiaeth a darpariaeth hyfforddiant.

- Codi'r angen i addasu darpariaeth gwasanaeth i ddiwallu anghenion penodol unigolion ag awtistiaeth.

- Ystyried beth yn fwy y gellir ei wneud i wella cyfleoedd cyflogaeth a chymorth i oedolion ag awtistiaeth

- Ystyried yr adborth a ddarparwyd ar gymorth mewn ysgolion wrth i ni ddiwygio gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a pharhau i ddatblygu a chyflwyno ein rhaglenni Dysgu ag Awtistiaeth ar gyfer ysgolion.

- Ystyried yr adborth a ddarparwyd ar gefnogi plant mewn ysgolion gan gynnwys cymorth pontio ôl 16 oed wrth ddatblygu'r diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol.

- Sicrhau ein bod yn cynnwys pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a gofalwyr yn y Grŵp Ymgynghori Gweithredu ASD i fonitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu Strategol ASD wedi'i ddiweddaru a Chynllun Cyflawni.

**Atodiad A**

**Rhestr o ymatebwyr sydd wedi cytuno i gyhoeddi eu henwau**

| | |
|---|---|
| Yr Athro Alka Ahuja | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru |
| Mrs Bennett | Rhiant |
| Rodney Berman | Cymdeithas Feddygol Prydain |
| Kerrie Berroyer | Rhiant |
| Stewart Blythe | Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru |
| Sarah Capstick | Cyngor Trydydd Sector Caerdydd |
| Karen Chandler | Prif Swyddog aelodau *Pembrokeshire People First* |
| Darrell Clarke | Grŵp Llywio ASD Cwm Taf |
| Darrell Clarke | Grŵp Rhieni ASD Cwm Taf |
| Joanna Davies | Rhiant |
| Helen Dodoo | Iechyd Meddwl |
| Dr Jane Fenton-May | Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru |
| DT Fisher | Unigolyn |
| Liz Foden-Shroff | Grŵp Ymgynghorol Arweinwyr Dietegol Cymru |
| Tracey Good | Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG |
| Dr Dougal Hare/Yr Athro Sue Leekam | Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru |
| Lindsay Haywood | Grŵp Cefnogi Rhieni Dinas Abertawe |
| Nicola Heady | Rhiant |
| Ann Hodgson | Tîm Cymorth Awtistiaeth Cyngor Dinas Caerdydd |

| | |
|---|---|
| Dr Judy Hutchings | Canolfan Ymyrraeth Gynnar ar Sail Tystiolaeth Prifysgol Bangor |
| Denise Inger | SNAP Cymru |
| Caryn James | Unigolyn |
| Rebecca James | Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc Powys |
| Teresa James | Grŵp Rhanddeiliaid ASD Sir Fynwy |
| Wendy James/Rebecca Saltmarsh | Gwasanaeth Anabledd Dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg |
| Christine Jenkins | Grŵp Cymorth Syndrom Asperger Rhondda Cynon Taf |
| Lisa Jenkins | Rhiant |
| Non Jenkins | Rhiant |
| Robert Jenkins | Unigolyn |
| Paul ac Ann Joyner | Rhieni |
| Dr Tamsin Josty | Paediatregydd Cymunedol Ymgynghorol, Gwasanaeth Anabledd Dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro-Morgannwg |
| San Leonard | Cwmnïau Cymdeithasol Cymru |
| Sandra Morgan | Rhiant |
| Mark Owen | Gyrfa Cymru |
| Anna Parton | Unigolyn/Rhiant |
| Stephen Pickett | Unigolyn/Oedolyn |
| Mary Rendall | Grŵp Llywio a Rhanddeiliaid Ceredigion |
| Libby Ryan | Bwrdd Iechyd Hywel Dda |
| Aelodau *Pembrokeshire People First* | *Pembrokeshire People First* |
| Jan Roberts | Adran Cynhwysiant Addysgu Awdurdod Lleol Wrecsam |
| Becca Sayers | Fforwm Ymgynghorol Therapi Celfyddydol Cymru |
| Sandra Spratt | Unigolyn |
| Dr Alison Stroud | Pennaeth Swyddfa Cymru, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd |
| Cangen NAS De Powys | |
| Meleri Thomas | Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru |
| C Wendy Thomas | Grŵp Llywio ASD Sir Gâr |
| C Wendy Thomas | Gwasanaethau Plant ac Addysg Awdurdod Lleol Sir Gâr |
| Patricia Thompson | Rhiant |
| Karen Thompson | Oedolyn ag ASD |
| Christine Trevett | Grŵp Cymorth Syndrom Asperger Rhondda Cynon Taf |
| Lisa Turnbull | Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru |
| Catherine Vaughan | BIP Abertawe Bro-Morgannwg, Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal |
| Mel Whitter | Swyddog Merched a Chydraddoldeb, Swyddfa Unite Cymru |
| Rob Williams | Cyfarwyddwr Polisi Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon |

| | |
|---|---|
| Sarah Payne | Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru |

**Atodiad 2**

## Rhestr o Gyfarfodydd Ymgynghori

| | |
|---|---|
| 21 Mawrth | Grŵp Rhanddeiliaid ASD Cyngor Sir Fynwy |
| 23 Mawrth | Fforwm Cenedlaethol Swyddogion Arweiniol ASD, y Drenewydd |
| 7 Ebrill | Diwrnod Gwybodaeth ASD Powys ar gyfer Rheini, Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol |
| 25 Ebrill | Grŵp Llywio Rhanddeiliaid ASD Sir y Fflint |
| 9 Mai | Grŵp Rhieni Torfaen |
| 11 Mai | Cyngor Sir Abertawe – sesiwn galw heibio i rieni |
| 16 Mai | Grŵp Rhieni ASD y Pîl |
| 17 Mai | Cyfarfod eithriadol Grŵp Rhanddeiliaid ASD Cyngor Dinas Casnewydd. |